

Pwyllgor Cyswilt Ystadegol Cymru

Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Cenedlaethol ar Ystadegau
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2016
Parc Cathays, Caerdydd

Yn bresennol			
Phillip	Barlow	PB	Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Chris	Clarke	CC	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Lee	Clarke	LC	Cyngor Sir Caerdydd
Fiona	Clay-Poole	FC	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Jill	Edge	JiE	Cyngor Sir Fynwy
Janine	Edwards	JE	Cyngor Sir Conwy
Rhys	Gibbon	RG	GIG Cymru
Alan	Jackson	AJ	Llywodraeth Cymru
Glyn	Jones	GJ	Llywodraeth Cymru
Nia	Jones	NJ	Cyngor Sir Gwynedd
Paul	Jones	PJ	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Steve	King	SK	Dinas a Sir Abertawe
Sue	Leake	SL	Llywodraeth Cymru
Gretel	Leeb	GL	Llywodraeth Cymru
Nathan	Lester	NL	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Silvia	Manclossi	SM	Llywodraeth Cymru
Ann-Marie	McCafferty	AM	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Geraint	Morgan	GM	Cyngor Sir Powys
Jenny	Murphy	JM	Uned Ddata Cymru
Chris	Perkins	CP	Uned Ddata Cymru
Matthew	Scanlon	MS	Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Yuan	Shen	YS	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Lisa	Walters	LW	Llywodraeth Cymru
Lowri	Wyn Francis	LWF	Cyngor Sir Gwynedd
Ymddiheuriadau			
Sioned	Cardew-Richardson		Estyn
Richard	Cardwell		Cyfoeth Naturiol Cymru
Chris	Davies		Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Vicki	Doyle		Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Neville	Evans		Cyngor Sir Ynys Môn
Martin	Jennings		Comisiwn y Cynulliad
Leanne	John		Dinas a Sir Abertawe
Sarah	Jones		Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Helen	Jones		Cynulliad Cenedlaethol Cymru
David	Morgan		Cyngor Sir Penfro
Lesley	Rees		Cyngor Sir Caerfyrddin
Andrew	Stephens		Uned Ddata Cymru
Alison	Vaughan		Cyngor Sir Ceredigion
Russell	Watts		Cyngor Bro Morgannwg
Andy	Wilson		Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

1	Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau	
	Agorodd GJ y cyfarfod gan groesawu'r aelodau newydd. Yn dilyn adborth gan aelodau, ni chaiff cyflwyniadau eu hargraffu yn y dyfodol oni cheir cais penodol gan aelod.	
2	Nodyn o'r cyfarfod diwethaf a'r wybodaeth ddiweddaraf am gamau gweithredu (PCYC (2016 06) 01 a 02)	
	Ni chafwyd unrhyw geisiadau i ddiwygio cofnodion y cyfarfod diwethaf. <i>Cam Gweithredu 1 - AJ i anfon ceisiadau am enwebiadau ar gyfer y grŵp hwn. GJ i anfon nodiadau'r cyfarfod llawn ar gyfer yr wythnos yn dechrau 03/10 mewn perthynas â'r amcanestyniadau a ddefnyddiwyd gan y Prif Weinidog</i> <i>Cam Gweithredu 2 - wedi ei gau - rhoddir diweddariad yn y papurau</i> <i>Cam Gweithredu 3 - Parhaus</i> <i>Cam Gweithredu 4 - Wedi'i gwblhau</i> <i>Cam Gweithredu 5 - Treialu'r defnydd o gyfarpar SAIL mewn ALLau. Dylid cysylltu â GJ os oes diddordeb.</i> <i>Cam Gweithredu 6 - Ddim yn cael ei wneud ar hyn o bryd.</i> <i>Cam Gweithredu 7 - Diweddariad ar agenda'r cyfarfod.</i> <i>Cam Gweithredu 8 - Parhaus</i> <i>Cam Gweithredu 9 - Wedi'i gwblhau</i> <i>Cam Gweithredu 10 - Ar yr agenda</i> <i>Cam Gweithredu 11 - Arolwg MALIC yn cael ei gyhoeddi yr wythnos nesaf.</i> <i>Cam Gweithredu 12 - Wedi'i gwblhau</i> <i>Ni chafwyd unrhyw bwyntiau cyffredinol eraill ar y Camau Gweithredu.</i> Trafodaethau yn y cyfarfod diwethaf: Gofynnodd JE am hyfforddiant Data Agored. Dywedodd GJ nad oedd unrhyw beth wedi digwydd eto ond caiff ei ddwyn ynghyd gyda hyfforddiant ar StatsCymru a Power BI. Addawodd GJ y byddai'n rhoi diweddariad yn y cyfarfod nesaf.	CAMAU GWEITHREDU: AJ i anfon cais i enwebu'r rheini sy'n cynrychioli safbwynt cynllunio i gymryd rhan yng ngrŵp WASP. GJ i anfon nodiadau'r cyfarfod llawn mewn perthynas â'r amcanestyniadau a ddefnyddiwyd gan y Prif Weinidog. GJ i adrodd yn ôl ar hyfforddiant StatsCymru.
3	Adolygiad o bapurau gwybodaeth	
	Rhoddodd GJ grynoded o gylchlythyr Ystadegau Llywodraeth Cymru a thrafodwyd y canlynol yn benodol: StatsCymru bellach yn gwbl ddwyieithog, SYG yn agor campws gwyddoniaeth data newydd. Posiblwydd o wahodd SYG i roi cyflwyniad ar y campws gwyddoniaeth data yn y cyfarfod nesaf. Trafodaeth ynghylch eglurder mewn perthynas â chynlluniau cyhoeddi Dangosyddion MALIC. Bydd SL yn ymchwilio i'r hyn a gaiff ei gyhoeddi a phryd ac yn sicrhau bod y wybodaeth honno'n glir. Trosolwg o'r Cylchlythyr Demograffeg a Phapur Gwybodaeth Cyfrifiad SYG. Nododd GM fod Powys wedi'i dewis ar gyfer prawf Cyfrifiad 2017 a chytunodd i adrodd yn ôl y flwyddyn nesaf ar hynt y prawf ym Mhowys. Diweddariad gan Uned Ddata Cymru: CLILC yn gwneud cais am ddata ar y lluoedd arfog ar lefel leol. Dylid rhoi gwybod i JM os gellir rhoi unrhyw gymorth.	CAMAU GWEITHREDU: GJ i wahodd SYG i'r cyfarfod nesaf i roi cyflwyniad ar y Campws Gwyddoniaeth Data. SL i ymchwilio i gynlluniau cyhoeddi dangosyddion MALIC a sicrhau eglurder ynghylch yr hyn a gaiff ei gyhoeddi a phryd.

		GM i adrodd yn ôl y flwyddyn nesaf ar brawf y cyfrifiad ym Mhowys. Pawb i roi unrhyw gymorth posibl i JM mewn perthynas â chais CLILC am ddata ar y lluoedd arfog.
4	Amcanestyniadau o Boblogaeth Awdurdodau Lleol	
	Rhoddodd AJ gyflwyniad ar yr amcanestyniadau o boblogaeth awdurdodau lleol a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Gofynnodd GM pryd fyddai rhagdybiaethau manwl yn cael eu cyhoeddi. Nododd AJ y byddai hynny'n digwydd o fewn yr ychydig ddiwrnodau nesaf. Bu'r aelodau'n trafod sut i fynd ati'n lleol i ddelio â'r rhagdybiaeth nad oes unrhyw ymfudo net, yn enwedig o ystyried yr ansicrwydd ynghylch ymfudo yn dilyn Brexit. Amcanestyniadau aelwydydd ac amcanestyniadau Parciau Cenedlaethol i'w cyhoeddi ym mis Mawrth 2017. Mae timau cynllunio Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o hynny. Trafodwyd effaith amcanestyniadau o'r boblogaeth ar amcangyfrifon o wariant safonol.	
5	Amcanestyniadau o'r Llafurlu	
	Rhoddodd JE gyflwyniad ar sut mae'n defnyddio amcanestyniadau o'r boblogaeth i lunio amcanestyniadau o'r llafurlu. Roedd y drafodaeth yn cynnwys y potensial i fodlu gweithwyr llawn amser a rhan amser a gweithwyr hunangyflogedig. Dywedodd SL fod y gofyniad tir cyflogaeth yn debygol o fod yn ddefnyddiol iawn i gynllunwyr. Cafwyd trafodaeth ynghylch cysylltu amcanestyniadau o'r llafurlu â sgiliau llafurlu'r dyfodol. Bydd GJ yn dosbarthu gwybodaeth yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan Lywodraeth Cymru ar Wybodaeth am y Farchnad Lafur ac adnoddau ar bartneriaethau sgiliau rhanbarthol.	CAMAU GWEITHREDU: GJ i ddosbarthu gwybodaeth am sgiliau a gwybodaeth am y farchnad lafur. GJ i ddosbarthu adnoddau ar bartneriaethau sgiliau rhanbarthol.
6	Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd	
	Cyflwyniad gan RG ar yr adnodd interim ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd. Trafodaeth ynghylch rhyddhau Data Agored. Mynegodd llawer ddiddordeb mewn cael data ar lefel is. RG i drafod rhyddhau data yn gynharach gyda thîm y Fframwaith. Trafodaeth ynghylch amllder diweddariadau. Nododd RG fod y diweddariadau yn debygol o fod yn rhai blynyddol ond y cânt eu rhoi bob hyn a hyn yn ddelfrydol er mwyn caniatáu ar gyfer data "byw". Mynegwyd diddordeb mewn cael cyngor ac arweiniad, yn enwedig	CAMAU GWEITHREDU: RG i drafod rhyddhau data sylfaenol y Fframwaith yn gynharach gyda'r tîm. RG i drafod cysylltu Data

	ynghylch arwyddocad ar lefelau daearyddol. RG i drafod cysylltu Data Agored StatsCymru gyda Llywodraeth Cymru.	Agored StatsCymru ag adnodd cyflwyno adroddiadau'r Fframwaith gyda Llywodraeth Cymru.
7	Arolwg Cenedlaethol	
	Cyflwyniad gan SM a LW ar y modd y caiff canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol eu cyhoeddi yn y dyfodol. Trafodaeth ynghylch pa allbynnau fyddai'r rhai mwyaf effeithiol i ALLau. Roedd gan ALLau ddiddordeb yn y lefel isaf o ddata sydd ar gael, gan gynnwys data craidd, ond roeddent yn cydnabod effeithiolrwydd ffeithluniau ymhlith defnyddwyr cyffredinol.	
8	Amcanestyniadau iechyd	
	Cyflwyniad gan NL ar adnodd rhyngweithiol ar y we sy'n dangos tueddiadau blaenorol ac amcanestyniadau o ddangosyddion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n ymwneud ag iechyd. Datblygwyd yr adnodd er mwyn helpu gwasanaethau iechyd y cyhoedd a BGCau i lunio asesiadau a chynlluniau llesiant. Gellir defnyddio'r adnodd i ganolbwyntio ar osgoi tueddiadau anffafriol a gwella iechyd y boblogaeth yn y dyfodol. Mae'r adnodd yn darparu allosodiadau 3 blynedd a 10 mlynedd. Pwysleisiodd NL y dylid defnyddio allosodiadau yn ofalus oherwydd gall newidiadau ddigwydd o ganlyniad i nifer o ffactorau nad ydynt wedi'u modelu. Gofynnodd GJ gwestiwn ynghylch argaeledd data. Eglurodd NL y bydd datblygiadau yn y dyfodol yn cynnwys ffeiliau data fflat. Gofynnodd AM am y ffordd orau o gyflwyno'r data hyn. Nododd NL mai'r peth gorau fyddai trafod hyn gyda BGCau perthnasol, ond y dylid gwahanu'r data er mwyn sicrhau mai dim ond y data angenrheidiol a ddangosir.	
9	Prosiect Tystiolaeth Cyflwr Tai	
	Rhoddodd SL gyflwyniad ar brosiect Tystiolaeth Cyflwr Tai. Nod y prosiect, a fydd yn mynd rhagddo dros y tair blynedd nesaf, yw sicrhau data a dadansoddiadau er mwyn llywio polisïau'n ymwneud â thai domestig a'r defnydd o ynni. Gofynnir cwestiynau yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017/18 er mwyn casglu gwybodaeth sy'n berthnasol i dai. Cesglir data ychwanegol ar gyflwr ffisegol tai drwy ailgysylltu â syrfëwr, gyda'r nod o samplu 2,500 o anheddau. Ochr yn ochr â'r arolwg, bwriedir creu 'meingefn anheddau' ar gyfer Cymru er mwyn cysylltu data sy'n bodoli am anheddau yn ddi-enw. Gofynnodd JE gwestiwn ynghylch argaeledd data ar lefel ALI. Ymatebodd SM y byddai'r sampl ar gyfer yr arolwg cyflwr tai yn annhebygol o roi digon o ddata ar gyfer hyn ond y byddai hyn yn amcan allweddol ar gyfer y gwaith modelu gan ddefnyddio'r meingefn anheddau.	

10	Diweddariad ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	
	Dangosyddion cenedlaethol / adroddiad llesiant blynyddol	
	Rhoddodd GJ y wybodaeth ddiweddaraf am Ddangosyddion Cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r pwyslais presennol ar lunio adroddiad llesiant blynyddol. Er bod data cenedlaethol yn cael eu defnyddio i adrodd ar nodau cenedlaethol, bydd unrhyw ddata ar ALLau ar gael ar StatsCymru. Eglurodd GJ fod rhai dangosyddion yn cael eu casglu neu eu pennu am y tro cyntaf. Cafwyd trafodaeth ynghylch sut i sicrhau bod pobl yn ymwybodol nad yw'r adroddiadau hyn yn ddangosyddion perfformiad. Pwysleisiodd GJ mai nod yr adroddiadau yw mesur cynnydd Cymru yn erbyn y nodau; nid ydynt yn adroddiad blynyddol ar berfformiad Llywodraeth Cymru nac unrhyw sefydliad arall.	
	Tueddiadau yn y dyfodol	
	Siaradodd GL am y broses o gyflwyno adroddiadau ar dueddiadau'r dyfodol. Rhoddwyd pwyslais ar sicrhau bod adroddiadau ar dueddiadau'r dyfodol yn addas ar gyfer y dyfodol, fel cyfleuster byw, parhaus, yn hytrach nag adroddiad ciplun i fodloni'r gofyniad uniongyrchol yn unig. Nododd GL, yn unol â'r Ffyrdd o Weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y dylai adroddiadau ar dueddiadau'r dyfodol wneud y canlynol: • ategu penderfyniadau ynghylch camau ataliol • cyflwyno darlun integredig o'r rhyngddibyniaeth rhwng tueddiadau • diwallu anghenion cyfunol a bod o dan berchenogaeth gyfunol • bod yn hygyrch i bawb • bod modd cyfrannu atynt Codwyd rhai cwestiynau ynghylch y disgwyliadau ar gyfer yr adroddiadau asesu llesiant sydd ar ddod, o gofio bod rhai BGCau wrthi'n llunio adroddiadau drafft erbyn mis Tachwedd a bod angen i BGCau gyfeirio at yr adroddiad ar dueddiadau'r dyfodol yn eu hasesiad. Pwysleisiodd GL y byddai deunydd ar gael yn fuan ond bod y broses o gyflwyno adroddiadau ar dueddiadau'r dyfodol yn mynd rhagddi, yn cael ei datblygu ac y disgwylir iddi fod yn broses iteraidd. Ychwanegodd YS y dylid canolbwyntio ar gydweithio. Holodd GJ pwy fyddai'n craffu ar yr asesiadau llesiant. Mewn ymateb, nododd CP y byddai ymgynghori ar y cynlluniau ond disgwylir gwelliannau parhaus yn ystod y 18 mis nesaf wrth i gynlluniau llesiant gael eu datblygu.	
	Asesiadau o anghenion	
	Siaradodd CP am y cymorth a roddir i awdurdodau lleol, yn enwedig o ran	

	paratoi asesiadau llesiant. Mae'r data wedi'u casglu ac mae'r ffocws nawr ar drawsnewid y data yn asesiadau. Roedd pryderon cyn yr haf am brinder amcanestyniadau, ond mae hyn bellach yn llai o broblem o ystyried datblygiadau diweddar. Cyhoeddwyd canllawiau anstatudol ynghylch dadansoddi ymatebion yn adroddiadau chwarterol BGCau ar ddiwedd mis Medi. Bydd CP yn mynychu digwyddiadau ym mis Tachwedd, ac yn gweithio gyda BGCau ar y broses asesu. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu cyhoeddi pecyn data ar gyfer pob BGC.	
11	Unrhyw Fater Arall	
	Cafwyd trafodaeth ynghylch lleoliad cyfarfodydd yn y dyfodol. Mae'n anodd cyrraedd lleoliadau yng nghanolbarth Cymru ar drafnidiaeth gyhoeddus, ond mae angen teithio'n bell i gyrraedd lleoliadau eraill.	

Crynodeb o'r Pwyntiau Gweithredu		
1.	AJ i anfon cais i enwebu'r rheini sy'n cynrychioli safbwynt cynllunio i gymryd rhan yng ngrŵp WASP. GJ i anfon nodiadau'r cyfarfod llawn mewn perthynas â'r amcanestyniadau a ddefnyddiwyd gan y Prif Weinidog.	
2.	GJ i adrodd yn ôl ar hyfforddiant StatsCymru.	
3.	GJ i wahodd SYG i'r cyfarfod nesaf i roi cyflwyniad ar y Campws Gwyddoniaeth Data.	
4.	SL i ymchwilio i gynlluniau cyhoeddi dangosyddion MALIC a sicrhau bod eglurder ynghylch yr hyn a gaiff ei gyhoeddi a phryd.	
5.	GM i adrodd yn ôl y flwyddyn nesaf ar brawf y cyfrifiad ym Mhowys.	
6.	Pawb i roi unrhyw gymorth posibl i JM mewn perthynas â chais CLILC am ddata ar y lluoedd arfog.	
7.	GJ i ddosbarthu gwybodaeth am sgiliau a gwybodaeth am y farchnad lafur.	
8.	CP i ddosbarthu adnoddau ar bartneriaethau sgiliau rhanbarthol.	
9.	RG i drafod rhyddhau data'r Fframwaith yn gynharach gyda'r tîm.	
10.	RG i drafod cysylltu Data Agored StatsCymru ag adnodd cyflwyno adroddiadau'r Fframwaith gyda Llywodraeth Cymru.	